Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Pwll Coch

**Lawrenny Ave**
**Lecwydd**
**Caerdydd**
**CF11 8BR**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Pwll Coch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Pwll Coch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 324 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 236 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 56 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 17.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 24.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 14/10/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr a staff Ysgol Gymraeg Pwll Coch wedi datblygu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar les, cynnydd mewn medrau a chodi safonau'r disgyblion. Mae'r ymdeimlad cynyddol o waith tîm yn cyfrannu'n dda at gydweithio pwrpasol i wella gwaith yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn llwyddo i integreiddio'r ethos hwn yn gryf ym mron bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion y Ganolfan Adnoddau Arbennig (CAA) yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol ac yn cymryd rhan gwbl naturiol yng ngweithgareddau'r ysgol. Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag addysg dysgu ychwanegol (ADY) wedi'i chydlynu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymdeithasol, iaith a rhifedd sydd ar y cam datblygu disgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r addysgu yn cefnogi y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi, i wneud cynnydd da.

Yn ddiweddar, mae staff wedi mireinio eu dulliau addysgu mathemateg, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r maes dysgu. Mae hyn wedi gwella gallu'r disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau mewn meysydd dysgu eraill. Mae staff yn gweithredu fel modelau rôl iaith graenus sy'n dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygu medrau llafaredd cryf disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu cariad at ddarllen yn llwyddiannus ac yn meddu ar fedrau ysgrifennu cadarn.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau holi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac i asesu eu cynnydd mewn sesiynau dysgu. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn ddigon cyson i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio i wneud cynnydd cyson. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu a sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae gan staff berthynas gadarnhaol â rhieni. Mae arweinwyr wedi adeiladu perthynas waith lwyddiannus rhwng y cartref a'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o bryd i gefnogi'r ysgol a phryd i'w herio, ac maent yn cymryd camau da i ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith gwaith bob dydd yr ysgol ar les a dysgu'r disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn gymuned ddysgu egnïol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol gyda gweledigaeth glir ar gyfer gwella. Fe'i cefnogir yn dda gan dîm arwain medrus, staff brwdfrydig, llywodraethwyr ymroddedig a chymuned ehangach gefnogol. Maent yn cydweithio’n gynyddol effeithiol ac wedi sefydlu gweledigaeth gytûn sy’n seiliedig ar greu cymdeithas ofalgar lle gosodir lles disgyblion yn ganolog i’w gwaith. O ganlyniad, darperir cymuned ddysgu hapus sy’n dathlu Cymreictod a threftadaeth yr ardal yn llwyddiannus. Mae staff yn arddel gwerthoedd moesol ac amlddiwylliannol yr ysgol a’i chymuned yn feistrolgar. Maent yn dathlu a pharchu bod pawb yn wahanol, ac yn cyfarch pob disgybl fel rhan annatod o deulu’r ysgol. Mae’r agwedd hon yn rhinwedd nodedig o ddarpariaeth yr ysgol.

**Ciplun: Dathlu Cymreictod a threftadaeth amrywiol disgyblion fel rhan annatod o gynhwysiant yr ysgol**

Mae diwylliant cryf o gynhwysiant yn greiddiol i’r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion sy’n mynychu'r CAA yn cael eu hintegreiddio'n fwriadus ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae staff yn gweithio'n dda i gryfhau'r ethos hwn ymhellach trwy godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd dathlu amrywiaeth a chynnwys pobl o wahanol gefndiroedd ac ethnigrwydd, yn ogystal â phobl â gwahanol gredoau ysbrydol a pherthnasoedd personol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. Maent yn dysgu am natur amrywiol eu cymdeithas trwy weithgareddau, gwasanaethau ac ymwelwyr, sy'n arwain y disgyblion i fod yn ddinasyddion gwybodus a moesegol. Cryfder amlwg yr ysgol yw dealltwriaeth disgyblion o’u hanes,treftadaeth leol a diwylliant cenedlaethol. Maent yn dathlu balchder ieithyddol a’u hamrywiaeth yn llwyddiannus sy’n atgyfnerthu eu harwyddair: ‘teulu mawr ŷm ni i gyd’ yn dda. Darperir cyfleoedd effeithiol i gefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol disgyblion a dathlu’r amrywiaeth ethnig cyfoethog sy’n bodoli o fewn yr ysgol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch tuag at eraill, yn datblygu dealltwriaeth o wahanol hunaniaethau ac yn trafod hawliau a themâu sy’n addas i’w hoed mewn sesiynau lles yn llwyddiannus.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn cydweithio ar dasgau a chyd-chwarae’n llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn ymrwymo’n dda i’w tasgau ac yn dyfalbarhau’n ddiwyd wrth ddysgu fel unigolion ac mewn grŵp. Maent yn cefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau a dyfalbarhau’n effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi at ei gilydd yn gwbl

naturiol o fewn y ddarpariaeth gynhwysol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae gan arweinwyr drefniadau effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant sy'n cyfrannu'n fuddiol at sicrhau bod ganddynt ddarlun perthnasol o berfformiad yr ysgol. Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn rhoi sylw gwerthfawr i'r meysydd datblygu ynghyd â'r blaenoriaethau gwella cenedlaethol. Dilynir amserlen briodol ar gyfer monitro'r ddarpariaeth sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r corff llywodraethol, llais y disgybl, a staff. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o sut i werthuso'r ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd eang o fewn y meysydd dysgu ac yn cydweithio ar draws blynyddoedd i gynllunio profiadau cyfoethog sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn bwrpasol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o werthusiadau ynglŷn â medrau cychwynnol a chynnydd disgyblion. Trwy hyn, maent yn olrhain y wybodaeth berthnasol i adnabod u meysydd sydd angen eu gwella wrth i'r disgyblion ddatblygu trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o gynnydd a safonau disgyblion.

Mae staff yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau disgyblion mewn sesiynau dysgu. Mae'r cynorthwy-wyr yn cefnogi'r disgyblion yn effeithiol trwy herio a manteisio ar gyfleoedd dysgu naturiol i symud y dysgu ymlaen. At ei gilydd, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth addas o'r camau nesaf yn eu dysgu.

Ym mwyafrif y gweithgareddau dysgu, mae athrawon yn darparu arweiniad pwrpasol i ddisgyblion i'w cefnogi i ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol feysydd yn effeithiol. Yn yr arfer orau, maent yn sicrhau cyflymder addas i'r dysgu, yn meddu ar ddisgwyliadau uchel, ac yn darparu her er mwyn cefnogi disgyblion i gyflawni'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol, sydd yn ei dro, yn arafu cynnydd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir, gan ddefnyddio geirfa briodol wrth gyfathrebu'n dda â staff a chyfoedion. Maent yn dangos gafael effeithiol ar eirfa a phatrymau iaith wrth iddynt ddatblygu trwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi adnabod yr angen i wella safon ysgrifennu estynedig y disgyblion ac yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i'w cefnogi i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu ymhellach.

Gwelir cynnydd amlwg ym medrau mathemategol y disgyblion, gyda'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o wahanol gysyniadau. Mae athrawon yn darparu trawstoriad o weithgareddau priodol sy'n diwallu anghenion y disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. O ganlyniad i ddealltwriaeth gytûn a chydweithio effeithiol athrawon, rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddechrau datblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn ystod dda o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio apiau defnyddiol i gofnodi eu gwaith, er enghraifft wrth greu cyflwyniad i brocio meddwl disgyblion am wahanol themâu fel 'pam fod yr haul yn

felyn?’. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu’r ystod lawn o fedrau digidol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn cael ei chydlynu'n dda ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu. Arfer hynod effeithiol o’r ddarpariaeth gynhwysol yw’r modd mae staff yn integreiddio disgyblion o’r CAA i fywyd yr ysgol ac yn dangos ymroddiad cadarnhaol at gynwysoldeb. Mae’r disgyblion o’r canolfannau yn ymuno’n weithredol â’u cyfoedion, fel yn ystod amseroedd chwarae, gwasanaethau ysgol gyfan, a gweithgareddau mathemateg. Mae hyn yn hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol yr holl ddisgyblion wrth i staff ddarparu cyfleoedd bwriadus iddynt ddysgu a chwarae’n hapus â’i gilydd fel rhan annatod o’r ddarpariaeth. Er hyn, mae datblygu a chryfhau llais y disgyblion ymhellach yn flaenoriaeth er mwyn dechrau dylanwadu’n gyson ar amgylchedd dysgu ehangach yr ysgol.

Mae’r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol a’i chymuned yn dda ac yn cefnogi’r ysgol yn ddiffuant. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o flaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r bartneriaeth rhwng yr ysgol a’r rhieni yn gweithredu’n hynod effeithiol er mwyn gwella’r ddarpariaeth ymhellach, er enghraifft wrth gefnogi staff i greu llyfrgell bwrpasol er mwyn meithrin y disgyblion i fwynhau darllen ystod o destunau atyniadol a diddorol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2024